

Cynrychiolydd Aelodau Cynllun PPC i'r Cydbwyllgor Llywodraethu - Proses Benodi a Manyleb Person

Proses Benodi

Mae rôl Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ar y CLI ar agor i unrhyw gynrychiolydd presennol aelodau'r cynllun sy'n aelod o un o'r wyth bwrdd pensiwn lleol yng Nghymru.

Bydd gofyn i bob bwrdd pensiwn lleol enwebu unigolyn i'w ystyried yn y rôl. Nid oes rheidrwydd ar fwrdd pensiwn lleol i enwebu unigolyn. Nid yw bwrdd pensiwn lleol nad yw'n enwebu unigolyn wedi'i eithrio rhag gwneud enwebiad yn y dyfodol.

Bydd yr holl enwebai sy'n bodloni'r gofynion hyfforddiant, gwybodaeth a sgiliau yn cael eu gwahodd i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb yn nodi eu rhinweddau penodol yn erbyn y rolau a chyfrifoldeb penodol, fel y manylir isod.

Gofynnir i'r CLI gymeradwyo is-grŵp o aelodau i ymgymryd â'r broses benodi, yn cynnwys ffurfio rhestr fer o geisiadau a chynnal cyfweiliadau, a bydd adroddiad ac argymhelliad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r CLI yn y dyfodol am gymeradwyaeth.

Manyleb Person

Hyfforddiant, gwybodaeth a sgiliau

Rhaid i Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth am;

- gyfraith pensiynau berthnasol;
- y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chanllawiau statudol sy'n ei gefnogi;
- polisiau a phrosesau'r CLI a'r PPC.

Rolau a Chyfrifoldebau

Rôl Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun fydd:

- cynorthwyo gyda'r sicrwydd o adrodd tryloyw gan y pŵl;
- cynorthwyo gyda sicrhau gweithredu strategaethau'n effeithio gan y pŵl;
- cymryd rhan lawn yng nghyfarfodydd y CLI ac eithrio bwrw pleidlais;
- gweithredu er budd holl aelodau'r cynllun ym mhob un o gronfeydd pensiwn CPLIL Cymru;
- gweithredu fel cyswllt rhwng y CLI a byrddau pensiwn lleol y cronfeydd cyfansoddol drwy ddod â syniadau ac awgrymiadau o'r byrddau pensiwn i'r CLI ac adrodd yn ôl ar benderfyniadau'r CLI i fyrddau pensiwn lleol;
- O bryd i'w gilydd, mynychu byrddau pensiwn lleol y cronfeydd cyfansoddol i ddarparu diweddariadau ac adroddiadau ar waith y CLI.

- mynychu digwyddiadau hyfforddiant a derbyn hyfforddiant parhaus ar faterion a datblygiadau perthnasol.

Rhaid i Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun allu arddangos;

- ymrwymiad cryf i'r rôl yn cynnwys rhoi amser i ymgymryd â'r dyletswyddau angenrheidiol;
- ymrwymiad cryf i lwyddiant y PPC a buddion ei holl awdurdodau cyfansoddol;
- y gallu i ddod â safbwynt aelodau'r Cynllun (gweithredol, wedi'u gohirio a phensiynwyr) i waith y CLI;
- y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth;
- yr hyder i herio, dylanwadu ac ymgysylltu ag eraill
- sgiliau rhyngpersonol da;
- y gallu i gyfrannu i gyfarfodydd y CLI;
- ymwybyddiaeth dda o reoliadau CPLIL, buddsoddi ac ariannol
- gwybodaeth gadarn am weithredu arferion llywodraethu da
- bod yn gyfathrebwr effeithiol ac yn aelod o dîm sy'n medru hyrwyddo perthnasau gwaith ardderchog o fewn y Bwrdd Pensiwn Lleol ac ennyn hyder rhanddeiliaid allanol
- y gallu i ymgymryd â'r rôl i'r safonau uchaf a chadw at y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.

Buddiannau sy'n Gwrthdaro

Rhaid i Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ddatgan p'un a oes ganddynt unrhyw fuddiant o ran unrhyw fusnes y mae'r CLI yn ymdrin ag ef, wrth gael eu penodi i'r CLI ac ar unrhyw bwynt dilynol.

Diffinnir buddiant sy'n gwrthdaro fel buddiant ariannol neu arall sy'n debygol o ragfarnu gweithrediad swyddogaethau person fel aelod o'r CLI.

Presenoldeb

Disgwylir i Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun fynychu holl gyfarfodydd y CLI ynghyd ag unrhyw ddigwyddiadau eraill a drefnir yn swyddogol. Fel arfer, ceir pedwar cyfarfod y flwyddyn. Petai'r cynrychiolydd yn absennol yn gyson, bydd eu haelodaeth yn cael ei adolygu gan y CLI.

Cyfnod Swydd

Bydd y penodiad cychwynol am gyfnod o flwyddyn, ac ar ôl hynny bydd gan y CLI yr opsiwn o ymestyn y penodiad am flwyddyn bellach